Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Greenfields

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/08/2018**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol yw Greenfields, sydd wedi'i lleoli yn un o faestrefi Casnewydd. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) ac sy'n byw yng nghartrefi plant y cwmni.

Ar hyn o bryd, mae chwe disgybl yn yr ysgol. Mae pob un o'r disgyblion dan ofal yr awdurdod lleol, ac mae gan lawer ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (AIG).

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2017.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn arbennig o dda. Trwy gyfathrebu effeithlon rhwng y staff a gweithio'n gryf fel tîm, mae'r ysgol yn darparu ethos meithringar lle mae disgyblion yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi ac yn gwybod y caiff eu hanghenion dysgu eu bodloni'n feddylgar. Ynghyd â'r cwricwlwm personoledig hyblyg sy'n cael ei gynnig i bob disgybl, mae'r ethos hwn yn helpu disgyblion i fagu ymddiriedaeth, hyder ac ennill ystod eang o gymwysterau addas.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion, a dull cyson o gymhwyso polisïau cysylltiedig yr ysgol. Dros amser, mae'r cysondeb hwn yn helpu disgyblion i wella eu hymddygiad a'r modd y maent yn rhyngweithio â staff, ymwelwyr a dysgwyr eraill, yn effeithiol.

Mae'r perchennog, uwch arweinwyr a staff yn ymdrechu'n gyson i wella deilliannau disgyblion a darpariaeth. Er enghraifft, mae darparu byrddau gwyn rhyngweithiol a llechi cyfrifiadurol mewn ystafelloedd dosbarth unigol yn ddiweddar yn welliant gwerthfawr i gynorthwyo disgyblion i ymgysylltu â'u dysgu.

### Meysydd i'w datblygu

Nid yw arsylwadau gwersi yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith addysgu ar ddysgu disgyblion, ac nid yw'r sylwadau gan arweinwyr yn arfarnol bob tro.

Er bod yr ysgol wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion yn rhannol ers yr arolygiad craidd, mae angen gweithredu pellach i fynd i'r afael â phob argymhelliad i raddau helaeth neu'n llawn.

## Argymhellion

A1 Gwella prydlondeb a phresenoldeb

A2 Cryfhau'r trefniadau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion

A3 Gwella ansawdd yr addysgu ac asesu ymhellach trwy rannu a hyrwyddo arfer orau yn ehangach

A4 Atgyfnerthu a datblygu hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ymhellach

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella prydlondeb a phresenoldeb**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Er Chwefror 2018, mae'r ysgol wedi cydweithio â staff therapiwtig arbenigol i asesu a datblygu strategaethau i ddisgyblion unigol i wella eu presenoldeb a'u prydlondeb. Rhoddwyd ymyriadau therapiwtig priodol a dulliau gwell o gydweithio ar waith rhwng staff addysg a gofal. O ganlyniad, sefydlwyd dulliau cyfathrebu mwy effeithlon a dealltwriaeth well o'r rhesymau dros wrthod mynd i'r ysgol.

Diwygiwyd system gwobrau cyflawniad yr ysgol, sy'n cynnwys presenoldeb a phrydlondeb, i sicrhau effaith fwy uniongyrchol. Er enghraifft, caiff disgyblion eu cynnwys mewn dadansoddi a thrafod eu presenoldeb, prydlondeb a'u perfformiad eu hunain mewn gwersi. Mae'r drafodaeth hon yn annog disgyblion i fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd eu hunain.

Er i'r ysgol roi rhaglen o strategaethau priodol ar waith i wella presenoldeb a phrydlondeb, mae'n rhy gynnar i arfarnu ei heffaith barhaus. Er enghraifft, mae lleiafrif o ddisgyblion wedi gwneud gwelliannau cynnar sylweddol yn eu presenoldeb. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r effaith ar draws yr ysgol yn rhy amrywiol, ac mae presenoldeb lleiafrif o ddisgyblion yn eithriadol o isel o hyd.

**Argymhelliad 2: Cryfhau'r trefniadau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau addas, gan mwyaf, i gryfhau ei threfniadau i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol disgyblion. Mae'r camau hyn yn cynnwys, er enghraifft, ffocws cryfach ar ddatblygu medrau rhifedd disgyblion mewn cyd-destunau go iawn mewn gwersi mathemateg.

Mae cynlluniau gwersi athrawon yn cynnwys defnyddio ffurflen safonol lle maent yn nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r medrau hyn yn ystod pob gwers. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd hyn wedi'u cynnwys yn y cynlluniau gwaith unigol ar gyfer pob pwnc. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl cynnal gweithgareddau ysgol gyfan, fel archwiliad ar draws y pynciau i nodi a oes elfennau coll neu ailadrodd diangen wrth ddatblygu pob un o'r meysydd medrau. Nid yw cydlynu'r agwedd hon ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd yr addysgu ac asesu ymhellach trwy rannu a hyrwyddo arfer orau yn ehangach**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryfach ar wella ansawdd yr addysgu ac asesu trwy arsylwi gwersi'n rheolaidd a monitro ansawdd gwaith disgyblion. Mae hyfforddiant

diweddar i staff wedi canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio technolegau newydd yn yr ystafell ddosbarth i ymestyn dulliau addysgu a bodloni anghenion dysgu disgyblion ymhellach.

Yn y rhan fwyaf o waith disgyblion y craffwyd arno yn ystod yr ymweliad, mae amrywiaeth ac ansawdd y tasgau y mae disgyblion yn eu cwblhau yn ddiddorol ac wedi'u dewis yn dda er mwyn hyrwyddo dysgu. Mae cynllunio a threfniadaeth y tasgau hyn yn bodloni amcanion dysgu unigol yn briodol ac yn addas ar gyfer oed a gallu pob disgybl. Lle caiff taflenni gwaith eu defnyddio, mae'r rhan wedi'u cyfyngu i weithgareddau cymorth priodol i lawer o ddisgyblion, fel nodi a threfnu tasgau allweddol cyn cwblhau darn o waith ysgrifenedig estynedig yn annibynnol. Fodd bynnag, yng ngwaith ychydig o ddisgyblion, caiff taflenni gwaith eu defnyddio'n ddiangen o hyd, nad yw'n herio disgyblion nac yn eu hannog i gyflawni eu gorau.

Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae staff yn rhoi sylwadau pynciol defnyddiol iddynt, i raddau helaeth, ynghyd â gweithgareddau ymestyn i atgyfnerthu eu dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae sylwadau athrawon yn anodd i'w darllen.

Yn ystod yr ymweliad hwn, nid oedd yn bosibl arsylwi gwersi.

**Argymhelliad 4: Atgyfnerthu a datblygu hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ymhellach**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi gwneud rhagor o welliannau i'w phrosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys arbrofi ag arolwg i gasglu barn rhanddeiliaid, fel awdurdodau lleoli, a diwygio strwythur y cynllun datblygu ysgol i gynnwys meini prawf llwyddiant.

Mae'r ysgol yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, fel dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion, i lywio ei phrosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau gwersi yn canolbwyntio'n ddigon da ar effaith darpariaeth ar ddysgu disgyblion, ac mae gormod o weithgareddau yn y cynllun gwella wedi'u targedu i'w cwblhau ar yr un pryd. Ar hyn o bryd, nid yw arfarniad yr ysgol o ddarpariaeth oddi ar y safle wedi'i integreiddio'n ddigon da yn y prosesau cynllunio i wella'r ysgol gyfan.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Greenfields |
| **Rhif yr ysgol** | 6806005 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 06/06/2018 |
| **Perchennog** | CareTech Community Services |
| **Staff** | 1 pennaeth, 4 athro, 1 cydlynydd gyrfaoedd, 1 gweinyddydd ysgol |
| **Nifer y disgyblion** | Chwech |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd, yn gysylltiedig â chartrefi plant y cwmni |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 08/05/2017 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 07/11/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |